# PWYLLGOR SAFONAU, 17.01.11

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Keith Greenly-Jones a Margaret Griffith.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr John Pollard (Cadeirydd), Mr Gwilym Ellis Evans, Mr Malcolm Jones a Mr Gwyn Williams.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Sion Huws (Swyddog Priodoldeb) ac Eirian Roberts (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriad:-** Mr Sam Soysa (Aelod Annibynnol).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2010, fel rhai cywir.

## 3. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Dosbarthwyd – copïau o Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y cynhwyswyd erthygl yn Newyddion Gwynedd yn tynnu sylw at y Pwyllgor Safonau ac yn hysbysu darllenwyr fod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gael ar wefan y Cyngor.

Nododd rhai aelodau eu bod wedi cael trafferth dod o hyd i'r Adroddiad Blynyddol ar y wefan a chytunodd y Swyddog Monitro a'r Swyddog Priodoldeb i edrych i mewn i'r mater.

Awgrymwyd y byddai'n syniad anfon copïau o'r Adroddiad Blynyddol i ysgolion uwchradd y sir, er sylw'r cynghorau ysgol.

Awgrymwyd hefyd y byddai'n fuddiol gwahodd sylwadau ar gynnwys a diwyg yr Adroddiad Blynyddol gan unrhyw unigolyn neu gorff sy'n derbyn copi o'r ddogfen, gan gynnwys y cynghorau ysgol.

Nododd y Swyddog Monitro y byddai unrhyw adborth o gymorth mawr i lunio adroddiad blynyddol nesaf y pwyllgor yn yr hydref.

Awgrymwyd gofyn i'r Prif Weithredwr baratoi rhagair byr i'r adroddiad blynyddol nesaf.

Awgrymwyd hefyd y byddai'n fuddiol cynnwys copi o Safon Gwynedd fel atodiad i'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Dosbarthu copïau o'r Adroddiad Blynyddol i holl aelodau Cyngor Gwynedd, i bob cyngor cymuned / tref o fewn y sir, a thrwy linc electronig i ysgolion uwchradd y sir, er sylw'r cynghorau ysgol, gan wahodd sylwadau ar gynnwys a diwyg y ddogfen.**

**(b) Gofyn i'r Prif Weithredwr baratoi rhagair byr i'r adroddiad blynyddol nesaf.**

**(c) Cynnwys copi o Safon Gwynedd fel atodiad i'r adroddiad.**

## 4. CYNHADLEDD SAFONAU CYMRU 2010

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn atodi nodiadau a baratowyd gan y rhai a fu'n bresennol ar ran y pwyllgor hwn yng Nghynhadledd Safonau Cymru 2010 – 'Rhoi'r Theori ar Waith' yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd ar 14 Hydref, 2010.

Nododd y Swyddog Monitro y byddai'n fuddiol petai'r pwyllgor yn cyffwrdd â rhai o'r negeseuon yn deillio o'r gynhadledd, ac yn arbennig felly, yr angen i'r pwyllgor fod yn rhagweithiol i gynnal safonau. Atgoffodd yr aelodau fod rhaglen waith bresennol y pwyllgor yn dod i ben fis Ebrill eleni a'i bod yn amserol, felly, i ddechrau meddwl am sefydlu rhaglen waith newydd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Nododd ymhellach mai Cyngor Sir Powys fyddai'n trefnu Cynhadledd 2011. 'Roedd yn debygol y byddai'r gynhadledd yn cael ei chynnal yn Llandrindod a byddai hynny'n ehangu'r nifer fyddai'n gallu mynychu o Wynedd.

Nododd aelod, er y cafwyd budd o fynychu Cynhadledd 2010, na lwyddwyd i drafod nifer o benawdau oherwydd diffyg amser ac awgrymodd y dylid gofyn i drefnwyr Cynhadledd eleni roi blaenoriaeth i'r sesiynau trafod.

Cyfeiriwyd at yr awgrym yn y gynhadledd y dylai rhai aelodau annibynnol eistedd i mewn ar gyfarfodydd y Cyngor a gofynnwyd a fyddai'n bosibl sefydlu trefn o'r fath yng Ngwynedd gan ei bod yn bwysig bod yr aelodau annibynnol yn ymwybodol o ymddygiad a gweithrediadau aelodau yn amryfal gyfarfodydd y Cyngor.

Mynegodd y Cadeirydd beth amheuaeth ynglŷn â threfn o'r fath ar y sail y byddai'n anodd i aelod annibynnol sydd wedi bod yn dyst i gamymddwyn gymryd rhan mewn gwrandawiad dilynol gerbron y Pwyllgor Safonau.

Mewn ymateb i'r sylw hwn, nododd y Swyddog Monitro ei bod yn annhebygol iawn y byddai aelod annibynnol yn gweld enghraifft o gamymddwyn mewn pwyllgor gan fod mwyafrif y cwynion a gyflwynir i'r Ombwdsmon yn ymwneud ag ymddygiad aelodau y tu allan i bwyllgorau. Gan hynny, ni chredai y byddai yna wrthdaro.

Mynegwyd pryder gan aelod y gallai presenoldeb aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd y Cyngor greu awyrgylch ffug. Fodd bynnag, 'roedd yn cydnabod bod gan unrhyw un yr hawl i fynychu cyfarfod fel aelod o'r cyhoedd, yn ddirybudd.

Nododd rhai aelodau nad oedd ganddynt fathodynnau adnabod a nododd y Swyddog Monitro y byddai'n sicrhau bathodyn i bawb. Nododd hefyd y byddai'n trefnu copi pellach o galendr pwyllgorau'r Cyngor i unrhyw un oedd ei angen. Eglurodd fod rhaglenni'r pwyllgorau ar wefan y Cyngor a bod modd i unrhyw un oedd yn bwriadu dod i gyfarfod gael copi caled o'r rhaglen. Gofynnodd hefyd bod unrhyw un oedd yn bwriadu dod i gyfarfod yn cysylltu â hi, neu'r Swyddog Priodoldeb, ymlaen llaw, fel y gellid eu rhoi ar ben

ffordd. Nododd ymhellach fod modd i'r Swyddog Gweinyddol yn yr Uned Bwyllgorau anfon linc i'r aelodau annibynnol i'w hysbysu pan fo rhaglen pwyllgor wedi'i gosod ar wefan y Cyngor.

Trafodwyd y math o bwyllgorau y gallai'r aelodau annibynnol eu mynychu, ac awgrymwyd mai'r pwyllgorau mwyaf buddiol a diddorol o safbwynt materion safonau fyddai'r Pwyllgor Cynllunio, Bwrdd y Cyngor, y Cyngor llawn a'r Pwyllgorau Ardal.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at archwiliad Pwyllgor Safonau a Moeseg Cyngor Caerdydd o letygarwch gan awgrymu bod yna faterion y gallai'r pwyllgor hwn eu harchwilio hefyd, e.e. rhoddion a lletygarwch a'r gofrestr datgan buddiannau. I'r diben hwn, awgrymodd y gellid cynnwys y mater hwn ar y rhaglen waith am y flwyddyn i ddod. Pe dymunai'r aelodau archwilio rhagor o faterion, gellid edrych ar wneud hynny hefyd.

Cyfeiriwyd at y taflenni a ddosbarthwyd ar gyfer y sesiwn drafod ar wrandawiadau pwyllgorau safonau ac awgrymwyd, pe bai angen i'r pwyllgor hwn gynnal gwrandawiad yn y dyfodol, y byddai'n syniad cynnal sesiwn hyfforddiant ymlaen llaw gan ddefnyddio'r taflenni hyn.

Awgrymodd y Cadeirydd y gellid cynnal hyfforddiant ar ffurf ffug wrandawiad.

Nododd y Swyddog Monitro, o gymryd na fyddai angen gwrandawiad cyn cyfarfod nesaf y pwyllgor, y gellid cyflwyno model ar gyfer cynnal gwrandawiad i'r pwyllgor ym mis Ebrill.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Swyddog Monitro fod cylch gorchwyl y pwyllgor hwn yn gynwysedig yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac y byddai'n dosbarthu copïau o'r ddogfen i'r aelodau fel y gallent gyflwyno unrhyw sylwadau ar y cynnwys i'r cyfarfod nesaf. Nododd ymhellach fod y ddogfen hon yn gyffredin i bob pwyllgor safonau drwy Gymru, ond y gellid gwneud ychwanegiadau iddi gan edrych hefyd a yw'r pwyllgor hwn yn ymlynu at ei gylch gorchwyl.

Nododd aelod mai copi drafft yn unig oedd ganddo o Safon Gwynedd. Cytunodd y Swyddog Monitro i anfon copi o'r ddogfen derfynol i bawb.

Gan gyfeirio at y sesiwn drafod ar y Cod Ymddygiad, mynegwyd siomedigaeth gan aelod na fu trafod o gwbl ar yr adran ar fuddiant gan y byddai wedi bod yn fuddiol holi'r Ombwdsmon ar wahanol fathau o fuddiant. Nododd hefyd na chredai fod yr un o'r ddau weithdy trafod wedi'u rheoli'n arbennig o dda gan na chyffyrddwyd â llawer o faterion.

Nododd y Cadeirydd fod perygl bod pobl yn mynd i golli hyder yn y system oherwydd bod yr Ombwdsmon yn penderfynu peidio ymchwilio i gynifer o gwynion. I'r diben hwn, awgrymodd efallai bod angen i rywun gael golwg sydyn ar y cwynion cyn eu rhoi i mewn.

Nododd y Swyddog Monitro mai'r prif risg yn y system yw'r amser mae'n gymryd i gynnal ymchwiliadau a manylodd ar rai o'r rhesymau dros yr oedi.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Hysbysu trefnwyr Cynhadledd 2011 mai'r gweithdai trafod yw'r elfen fwyaf buddiol a diddorol o'r gynhadledd ac y dylid caniatáu digon o amser ar gyfer trafod, yn hytrach na derbyn cyflwyniadau.**

**(c) Anfon linc rhaglenni pwyllgorau i'r aelodau annibynnol ar y pwyllgor hwn a gofyn iddynt gysylltu ymlaen llaw â'r Swyddog Monitro neu'r Swyddog Priodoldeb os ydynt yn dymuno dod i unrhyw gyfarfod.**

**(ch) Trefnu bathodyn adnabod ar gyfer pob aelod o'r Pwyllgor Safonau a chopi pellach o galendr pwyllgorau'r Cyngor i unrhyw un sydd ei angen.**
**(d) Cynnwys y materion a ganlyn ar raglen waith y pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod:-**
- **Cyflawni archwiliad o fater penodol, megis rhoddion a lletygarwch / y gofrestr datgan buddiannau;**
- **Adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal gwrandawiadau.**

**(dd) Dosbarthu copïau o gylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau i bob aelod o'r pwyllgor gan wahodd sylwadau ar y cynnwys.**
**(e) Dosbarthu copi terfynol o Safon Gwynedd i bob aelod o'r pwyllgor.**

## 5. CYNHADLEDD SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad llafar gan y Swyddog Monitro yn nodi bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cynnig y dylai holl bwyllgorau safonau Gogledd Cymru ddod at ei gilydd am hanner diwrnod i gyd-drafod y maes safonau. Eglurodd mai canran yn unig o'r aelodau oedd yn gallu bod yn bresennol yng Nghynhadledd Safonau Cymru ac 'roedd yn golygu llawer o deithio i'r cynrychiolwyr. 'Roedd hefyd yn anodd mynd dan groen materion gan fod yna gymaint yn bresennol.

Eglurodd ymhellach y byddai rhaglen y gynhadledd ranbarthol ychydig llai ffurfiol na'r un dros Gymru gyfan a'r nod fyddai i bawb ddysgu oddi wrth ei gilydd. Gofynnid i bob pwyllgor safonau roi cyflwyniad byr yn eu tro cyn rhannu allan i grwpiau trafod.

Fel cam cyntaf, bwriedid gwahodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd pob pwyllgor safonau i gyfarfod rhagarweiniol ym mis Ebrill i drafod sefydlu'r gynhadledd.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth, ac os na all y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fod yn bresennol yn y cyfarfod rhagarweiniol ym mis Ebrill, gofyn i'r Swyddog Monitro gysylltu â phwy bynnag fydd ar gael i fynychu ar y diwrnod.**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn atodi copi o Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2009/2010.

Nododd y Swyddog Monitro ymhellach fod y panel yn gallu cymryd misoedd lawer i wrando achosion, ond y dylai penodiad diweddar rhagor o aelodau i wasanaethu ar y panel hwyluso'r sefyllfa. Nododd hefyd y disgwylid canlyniad gwrandawiad o Geredigion oedd yn ymwneud â sefyllfa lle mae gwrthdaro rhwng buddiannau ward a buddiannau'r sir yn ehangach ac y byddai'n adrodd yn ôl ar hynny yn y cyfarfod nesaf.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y gynrychiolaeth ar y panel yn anghymesur iawn gydag un yn unig o'r wyth aelod yn dod o Ogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 7. HYFFORDDIANT AR Y COD YMDDYGIAD

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor ystyried opsiynau ar gyfer cyflwyno hyfforddiant ar y cod ymddygiad i aelodau Cyngor Gwynedd ac i aelodau a chlercod cynghorau cymuned a thref y sir.

Nododd y Swyddog Priodoldeb ymhellach y clustnodwyd 18 Mai fel diwrnod hyfforddiant i aelodau Cyngor Gwynedd. Yna ymhelaethodd ar ddau o'r opsiynau, sef creu modiwl hyfforddi a DVD, gan gyfeirio at gostau datblygu a chynnal y ddau fath o adnodd. O ran y posibilrwydd o gydweithio, nododd ei fod yn disgwyl i Swyddog Hyfforddi Cenedlaethol Un Llais Cymru gysylltu ag ef.

Awgrymodd y Swyddog Monitro y gellid gofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am gefnogaeth ariannol ac ymarferol tuag at y fenter gan y byddai'r hyfforddiant yn berthnasol i bob cyngor yng Nghymru.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid gofyn i'r Cynulliad am gefnogaeth ariannol hefyd.

Awgrymodd aelod y gallai Cyngor Gwynedd gynhyrchu adnodd dwyieithog a'i werthu i gynghorau eraill.

Trafodwyd pa fath o adnodd fyddai orau, ac er y cydnabyddid nad oedd gan bawb fynediad i'r We, 'roedd yna gonsensws cyffredinol o blaid creu modiwl ar wefan y Cyngor gan y byddai'n haws adennill y gost a byddai modd cadw cofnod o bwy sydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant.

Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd yr hyfforddiant hwn gan ddatgan bod rhaid i bawb fod yn ymrwymedig i hyn.

Nododd y Swyddog Priodoldeb y gellid neilltuo tudalen benodol ar gyfer y maes safonau ar wefan y Cyngor fel bod yr holl ddogfennau perthnasol ar gael mewn un lle. Nododd hefyd fod swyddogion yn edrych ar y posibilrwydd o osod fideos ar y wefan ac, o bosib', y gellid manteisio ar y math hwnnw o gyfle yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD gofyn i Gyngor Gwynedd greu modiwl hyfforddi safonol a hawdd ei ddefnyddio ar y Cod Ymddygiad ar wefan y Cyngor am bris rhesymol a'i werthu / dosbarthu i gynghorau eraill yng Nghymru, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol.**

## 8. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn hysbysu aelodau'r pwyllgor o'r datblygiadau, ers ei hadroddiad diwethaf, o safbwynt honiadau yn erbyn aelodau.

Nododd y Swyddog Monitro fod achos 3.1 yn yr adroddiad wedi bod gerbron yr Ombwdsmon ers bron i flwyddyn ac y disgwylid penderfyniad yn fuan iawn. Pe deuai'r achos gerbron y pwyllgor hwn maes o law, byddai'n trefnu hyfforddiant ar gyfer yr aelodau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Ar derfyn y cyfarfod, diolchodd Mr Gwilym Ellis Evans am y fraint o gael ei ail-benodi fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod pellach o 4 blynedd.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.05pm.